**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 3 Mehefin 2015**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

**<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i bumed cyfarfod y Grŵp. Eglurodd y byddai'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ar BVD ar yr agenda ac y byddai Michael Seals, Cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr yn ymuno wedi hynny.

**<u>Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 3 Mehefin</u>**

2. Cafodd y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu wedi'u diweddaru o'r cyfarfod diwethaf eu e-bostio at Aelodau'r Grŵp ym mis Mai fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae mwyafrif y pwyntiau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae rhai pwyntiau gweithredu ar waith o hyd ac mae eraill wedi'u cyflwyno i'w trafod yn y cyfarfod hwn.

3. Cadarnhaodd Huw y byddai'n anfon cofnodion y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC) ar yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn eu dosbarthu,

***Pwynt Gweithredu 1 – Huw i anfon cofnodion cyfarfodydd FAWC at yr Ysgrifenyddiaeth i gael eu dosbarthu.***

**<u>Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd</u>**

**Cyfarfod rhwng Cadeirydd Grŵp AHWF a'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

4. Cyflwynodd Peredur adborth o'i gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar 6 Mai. Dywedodd ei fod yn gyfarfod positif iawn. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn cynnwys dolur rhydd feirysol y gwartheg (BVD), y Clafr a'r adolygiad arfaethedig o ddeddfwriaeth Coleri Sioc Electronig. Eglurodd Ifan fod

y BVA hefyd yn ystyried mater coleri sioc electronig a ffensys terfyn. Eglurodd fod y BVA hefyd yn bwriadu adolygu'r materion hyn. Dywedodd Christianne mai bwriad y polisi oedd cadw'r ddeddfwriaeth yn ddilys ond ei bod yn bwysig bod yr adolygiad o'r sail dystiolaeth yn cael ei gynnal ac y byddai canlyniad yr adolygiad hwn yn cael ei ystyried cyn gynted ag y byddai ar gael.

**Adolygu a gwersi a ddysgwyd yn sgil blwyddyn gyntaf y Grŵp Fframwaith**

5. Cytunodd y Grŵp fod ei rôl wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gydag aelodau'n awr yn hwyluso ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau gwaith. Cytunodd aelodau ei bod yn bwysig cydweithio'n agos y tu allan i strwythur cyfarfodydd ffurfiol ac yn y dyfodol y byddai'n cynnal cyfarfodydd pan fyddai'r angen yn codi.

**Prif Flaenoriaethau**

6. Cadarnhaodd y Grŵp y byddai'r elfennau canlynol yn rhan o Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.
   - Bioddiogelwch/Cynllunio Iechyd – mae hon yn flaenoriaeth sylfaenol a bydd newid meddylfryd yn rhan hanfodol o'r gwaith hwn.
   - Defnydd cyfrifol o feddyginiaethau milfeddygol
   - BVD
   - Y Clafr
   - Ymgysylltu â'r sector lles (ceffylau ac anifeiliaid anwes)

**Cynllunio ar gyfer y Sioe Frenhinol**

7. Cadarnhaodd y Grŵp y byddai'n bresennol ar stondin Llywodraeth Cymru ac y byddai rota'n cael ei pharatoi i sicrhau bod o leiaf 2 aelod yno ar adegau priodol o'r dydd. Eglurodd Christianne fod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer seminarau a fydd yn ymdrin â bTB, bioddiogelwch a lansio'r dangosfwrdd bTB.

***Pwynt Gweithredu 2 – Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu rota ar gyfer y Sioe Frenhinol.***

**Cyfarfod y Pedwar Cadeirydd**

8. Eglurodd Peredur y byddai'n bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pedwar Cadeirydd ar 24 Mehefin, sy'n cael ei drefnu gan DEFRA. Eglurodd hefyd fod cyfarfod nesaf CHAWG yn cael ei gynnal ar 30 Mehefin. Cytunwyd os na allai aelod o'r Grŵp fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn yna byddai un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yn eu lle.

***Pwynt Gweithredu 3 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau pwy fydd yn bresennol yn y CHAWG***

**<u>Eitem Agenda 4: Is-grŵp BVD – diweddariad / trafodaeth ar gynigion i ddileu BVD yng Nghymru</u>**

9. Croesawyd Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i'r cyfarfod gan Peredur i drafod datblygiad y Cynllun i Ddileu BVD yng Nghymru.

10. Eglurodd Peredur fod llawer o gynnydd yn cael ei wneud i ddatblygu'r cynllun, yn enwedig y Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Gwahoddwyd Ifan gan Peredur i roi diweddariad.

11. Cyflwynodd Ifan amlinelliad o'r Datganiad o Ddiddordeb a throsolwg byr o sut y byddai'r cynllun yn gweithio. Mae'r prif faterion y mae angen eu datrys yn cynnwys sefydlu cronfa ddata a hefyd i ble byddai samplau'n cael eu hanfon i gael eu profi. Cafwyd adborth gan Chris o'r cyfarfod rhwng tîm y Cynllun Datblygu Gwledig a Chadeirydd yr is-grŵp BVD. Cytunwyd y bydd drafft terfynol y Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei ddangos i'r Grŵp Fframwaith er mwyn iddo ei gael ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

12. Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Grŵp a dywedodd fod y cynnydd yn galonogol. Dywedodd ei bod yn bwysig amlinellu buddiannau economaidd cael cynllun dileu.

13. Diolchodd Peredur y Dirprwy Weinidog am ddod i'r cyfarfod ac y byddai'n cael ei hysbysu o'r cynnydd.

**<u>Eitem Agenda 5: Diweddariad ar y Strategaeth Amaeth</u>**

14. Gwahoddwyd Chris Hale gan Peredur i roi diweddariad ar ddatblygiad y Strategaeth Amaeth. Eglurodd Chris mai'r enw ar y strategaeth yn awr yw'r Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru. Eglurodd fod gweithdai wedi cael eu cynnal â chynrychiolwyr o'r diwydiant i ddatblygu'r cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r dull yn canolbwyntio ar bennu nodau cyffredin a gweithio mewn partneriaeth er mwyn eu cyflawni. Cytunodd y Grŵp ei bod yn galonogol fod y dull sy'n cael ei fabwysiadu'n debyg i'r un a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Cytunodd y Grŵp ei bod yn hanfodol fod iechyd a lles anifeiliaid yn rhan allweddol o'r fframwaith amaethyddol ac y byddai'n gwahodd Andrew Slade i gyfarfod nesaf y Grŵp ym mis Medi.

***Pwynt Gweithredu 4 – Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd Andrew Slade i gyfarfod nesaf y Grŵp i drafod y Fframwaith Amaethyddol.***

**<u>Eitem Agenda 6: Y Clafr</u>**

15. Gwahoddwyd Ifan a Moss gan Peredur i ddiweddaru'r Grŵp ar y gwaith i ystyried y clafr a'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ystyried yr opsiynau ar gyfer comisiynu astudiaeth i ganfod mynychder y clafr yng Nghymru. Eglurodd Ifan fod y gwaith yn mynd yn ei flaen a chyflwynodd holiadur drafft i'r Grŵp ac fe'u gwahoddwyd i gynnig sylwadau arno. Bu'r Grŵp yn trafod sut y gellid targedu a hyrwyddo'r holiadur. Cytunwyd y bydd yr aelodau'n cynnig sylwadau i Ifan ar yr holiadur. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn

cael gair ag ystadegwyr i gael cyngor ar ddosbarthu'r arolwg. Cytunodd hefyd y byddai Ifan a Moss yn paratoi achos busnes i helpu i ariannu gwaith yr arolwg.

***Pwynt Gweithredu 5 – Yr aelodau i gynnig sylwadau i Ifan ar gwestiynau'r holiadur drafft***

***Pwynt Gweithredu 6 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gael gair ag ystadegwyr Llywodraeth Cymru i gael cyngor ar ddosbarthu'r arolwg.***

***Pwynt Gweithredu 7 – Ifan a Moss i baratoi achos busnes i geisio cael cymorth ffurfiol i'r arolwg.***

**Eitem Agenda 7: Cyfathrebu (30 munud)**

**Codi ymwybyddiaeth gan gynnwys bioddiogelwch**

16. Gwahoddwyd Carol gan Peredur i roi diweddariad ar y gwaith i godi ymwybyddiaeth o fioddiogelwch. Eglurodd Carol bod llawer o waith yn cael ei wneud. Eglurodd mai'r cam cyntaf oedd cynnal ymarferiad i weld pa wybodaeth sydd ar gael eisoes. Yn ail, mae arolwg yn cael ei ddatblygu i edrych ar ddealltwriaeth pobl o fioddiogelwch. Bydd yr arolwg yn cychwyn yn y Sioe Frenhinol a bydd yn para drwy gydol yr haf. Bydd hwn yn arolwg ar-lein yn bennaf gyda chopïau caled ar gael ar gais. Rhagwelir y bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i "gyfeirio" ac i oleuo camau nesaf yr ymgyrch.

**Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu**

17. Gwahoddwyd Carol gan Peredur i roi diweddariad ar ddatblygiad Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ar gyfer 2015-16. Eglurodd Carol ei bod wedi cael cyfarfod â Christianne i edrych ar y drafft terfynol ac y byddai hwn yn awr yn cael ei anfon ar yr aelodau i glywed eu sylwadau. Eglurodd mai'r nod, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, fyddai cyhoeddi'r cynllun cyn toriad yr haf ac mewn pryd ar gyfer y Sioe Frenhinol.

***Pwynt Gweithredu 8 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r cynllun gweithredu terfynol i gael sylwadau arno***

**Eitem Agenda 8: Ian Scott, Cymdeithas y Dosbarthwyr Iechyd Anifeiliaid (AHDA)**

18. Croesawyd Ian Scott o Gymdeithas y Dosbarthwyr Iechyd Anifeiliaid (AHDA) i'r cyfarfod gan Peredur. Cafwyd diweddariad gan Ian ar waith yr AHDA a rolau a chyfrifoldebau'r Unigolyn â Chymwysterau Addas (SQP).

**Eitem Agenda 9: Rôl y Grŵp Fframwaith mewn argyfwng clefydau**

19. Croesawyd Tony Joss, Pennaeth Clefydau Ecsotig a Chynlluniau Wrth Gefn gan Peredur. Cyfeiriodd Tony at yr amgylchiadau yn achos clefyd hysbysadwy mewn anifeiliaid a fyddai'n arwain at weithredu'r cynllun wrth gefn a'r trefniadau i gynnwys rhanddeiliaid y diwydiant. Cytunodd y Grŵp mai ei rôl mewn argyfwng clefyd ecsotig fyddai ei gadw mewn cysylltiad â'r sefyllfa a chynnig cyngor yn ôl yr angen. Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar Gynlluniau Wrth Gefn drafft Cymru fel rhan o'r adolygiad blynyddol. Cytunwyd hefyd y byddai Tony yn briffio Gweinidogion ar sut y byddai'r Grŵp yn gweithredu mewn argyfwng clefydau, yng ngoleuni trafodaethau heddiw. Byddai hynny'n gyfle iddynt i ganfod unrhyw swyddogaethau eraill a all fod ganddynt mewn golwg.

***Pwynt Gweithredu 9 – Tony i ofyn am sylwadau gan y Grŵp fel rhan o adolygiad blynyddol Cynllun Wrth Gefn Cymru.***

***Pwynt Gweithredu 10 – Tony i friffio Gweinidogion ar sut y byddai'r Grŵp yn gweithredu mewn argyfwng clefydau.***

**<u>Eitem Agenda 10. Ymgysylltu â'r sector lles</u>**

20. Eglurodd Peredur fod ymgysylltiad Alun Streeter â'r Sector Lles yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2015/16. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf eglurodd ei fod ef a Christianne wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd at Gadeirydd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) yn egluro'r camau cychwynnol ar gyfer ffordd ymlaen. Cafwyd adborth yn dilyn y cyfarfod â'r AWNW ar 29 Mai. Cytunwyd fod angen meddwl ymhellach ar y dull i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael eu cynnwys. Cytunwyd y byddai Ifan a Jo yn parhau â'r gwaith hwn.

***Pwynt Gweithredu 11 – Jo ac Ifan i barhau â'r gwaith i ymgysylltu â'r sector lles ceffylau ac anifeiliaid anwes.***

**<u>Eitem Agenda 11: Michael Seals, Cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr</u>**

21. Croesawyd Michael Seals, cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr gan Peredur. Cafwyd diweddariad gan Michael ar rôl a gwaith AHWBE. Cytunodd y Grŵp ei bod yn ddefnyddiol cael diweddariadau ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr oherwydd natur drawsbynciol materion iechyd a lles anifeiliaid. Dywedodd Peredur fod y fforwm y pedwar Cadeirydd yn gyfrwng pwysig i gael trafodaethau â chydweithwyr o bob rhan o'r DU. Eglurodd Peredur ei fod ef a Michael wedi bod yn gysylltiedig â recriwtio ar gyfer y Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth. Croesawodd y Bwrdd y ffaith fod cynrychiolaeth o Gymru ar y bwrdd newydd hwn.

**<u>Eitem Agenda 12: Unrhyw Fater Arall</u>**

22. Gofynnodd Moss a oedd y manylion ar erlyniadau lles a gwblhawyd wedi eu cyhoeddi.

***Pwynt Gweithredu 12 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ganfod a yw manylion erlyniadau lles yn cael eu cyhoeddi.***

23. Cododd Ifan fater salmonela agona. Dywedodd fod ymchwil wedi dangos ei bod yn amlwg bod moch daear yn cael eu hystyried fel cronfa letyol ar gyfer y clefyd hwn. Dywedodd y byddai'n fuddiol i ystyried mynychder y clefyd hwn ymhlith gwartheg a moch daear. Awgrymodd Christianne y gallai'r Arolwg Moch Daear a Ganfuwyd yn Farw fod yn opsiwn i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Awgrymodd y gellid codi'r mater â Gavin Watkins.

***Pwynt Gweithredu 13 - Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon e-bost ynghylch salmonela agona at Gavin Watkins.***

24. Awgrymodd Christianne y dylid diweddaru'r Grŵp ar y sefyllfa ddiweddaraf ar y Rhaglen i Ddileu bTB yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Dywedodd fod nifer o ddatblygiadau ar hyn o bryd, gan gynnwys lansiad arfaethedig y Dangosfwrdd TB.

***Pwynt Gweithredu 14 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu'r rhaglen Dileu bTG ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Medi.***

25. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp ddydd Iau 17 Medi 2015 ym Mharc Cathays. Mae'r cyfarfodydd wedi hynny wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher 2 Rhagfyr a dydd Iau 3 Mawrth 2016.